


Conffederasiwn GIG Cymru Cynghrair Iechyd a Lles yn galw am etholiad y Senedd 2026

Mae 38 o sefydliadau o Gynghrair Iechyd a Lles Cydffederasiwn GIG Cymru wedi dod ynghyd i amlinellu pedwar maes blaenoriaeth cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i gyflawni'r blaenoriaethau canlynol:



Atal:

Cyflwyno cenhadaeth genedlaethol i wella iechyd a llesianty boblogaeth drwy fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau, ac atal yr angen am ofal a chymorth rhag cynyddu.



Y gweithlu:

Ymrwymo i ariannu a gweithredu cynllun hirdymor ar gyfer gweithlu'r GIG a gofal cymdeithasol.



Seilwaith:

Cynyddu buddsoddiad yn seilwaith y GIG a gofal cymdeithasol i ddatgloi arloesedd, hybu cynhyrchiant a manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan driniaethau a thechnolegau trawsnewidiol.



Gofal, triniaeth a chefnogaeth:

Trosglwyddo i ofal, triniaeth a chymorth mwy hygyrch a ddarperir yn y lle gorau i gleifion.

Atal

Cyflawni cenhadaeth genedlaethol i wella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau, ac atal yr angen am ofal a chymorth rhag cynyddu.

Dan arweiniad y Prif Weinidog ac yn cynnwys pob adran o'r llywodraeth, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddyrannu cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer atal er mwyn cefnogi pobl Cymru i ddod yn bartneriaid gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant drwy wella mynediad at wybodaeth, gweithgareddau, sgrinio, profion a brechlynnau iechyd a llesiant. Gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a phenderfynyddion ehangach iechyd, rhaid i'r genhadaeth hon symud y ffocws o drin salwch i hyrwyddo iechyd a llesiant.

Gofal, triniaeth a chefnogaeth

Trosglwyddo i ofal, triniaeth a chymorth mwy hygyrch a ddarperir yn y lle gorau i gleifion.

Dylai hyn fod gartref, yn y gymuned neu mewn canolfan arbenigol i'r rhai sydd ei angen. Rhaid symud i'r model gyflawni hwn sicrhau mynediad cyfartal drwy roi'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar sail fwy cynaliadwy, a'u grymuso i weithio gyda'r sector gwirfoddol, cleifion a gofalyr di-dâl i ailgynllunio gwasanaethau a gwella profiadau a chanlyniadau i gleifion.

Y gweithlu

Ymrwmo i ariannu a gweithredu cynllun hirdymor ar gyfer gweithlu'r GIG a gofal cymdeithasol.

Dylai'r cynllun hwn flaenoriaethu tryloywder data i gefnogi cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol, recriwtio staff, cadw staff a llesiant. Wrth wraidd y cynllun, dylai ganolbwyntio ar ehangu lleoedd addysg a hyfforddiant, sy'n cynnwys ehangu mynediad at gymwysterau proffesiynol drwy lwybrau newydd, fel prentisiaethau, a mwy o gyfleoedd gwirfoddoli. Byddai hyn yn cefnogi datblygiad gweithlu aml-broffesiynol, integredig, sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac sydd wedi'i alluogi'n ddigidol ar gyfer y dyfodol.

Seilwaith

Cynyddu buddsoddiad yn seilwaith y GIG a gofal cymdeithasol i ddatgloi arloesedd, hybu cynhyrchiant a manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan driniaethau a thechnolegau trawsnewidiol.

Rhaid i gynaliadwyedd, yr effaith ar yr economi leol a chost-effeithiolrwydd fod yn ganolog i bob prosiect seilwaith. Dylai buddsoddiad gwmpasu adeiladau, offer, seilwaith digidol, a datblygiadau technolegol ac ymchwil, gan gynnwys cefnogi'r defnydd o genomeg a deallusrwydd artifisial i wella canlyniadau i gleifion.

Mae'r galwadau hyn wedi'u cymeradwyo gan:

- [Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain \(ABPI\)](#)
- [Asthma + Ysgyfaint DU Cymru](#)
- [ASH Wales Cymru](#)
- [Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru](#)
- [Gofal a Thrawsio Cymru](#)
- [Ymchwil Cancer y DU](#)
- [Crohn's a Cholitis y DU](#)
- [Community Leisure UK](#)
- [Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi](#)
- [Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#)
- [Cymru yn erbyn Arthritis](#)
- [Diabetes UK Cymru](#)
- [Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)
- [Triniaeth Deg i Ferched Cymru](#)
- [Anabledd Dysgu Cymru](#)
- [Marie Curie Cymru](#)
- [Mencap Cymru](#)
- [Cymorth Cancer Macmillan](#)
- [Cymdeithas MS Cymru](#)
- [Parkinson's UK Cymru](#)
- [RNIB Cymru](#)
- [RNID](#)
- [Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion](#)
- [Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru](#)
- [Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol](#)
- [Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant](#)
- [Coleg Brenhinol y Meddygon](#)
- [Coleg Brenhinol Podiatreg](#)
- [Coleg Brenhinol y Seiciatryddion](#)
- [Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith](#)
- [Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol](#)
- [Cymdeithas Stroke](#)
- [Gofal Cancer Tenovus](#)
- [Cymdeithas Seicolegol Prydain](#)
- [Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin](#)
- [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#)
- [Cyngghair Niwrolegol Cymru](#)
- [Conffederasiwn GIG Cymru](#)

Gwybodaeth am y Gyngghair Iechyd a Lles Cydffederasiwn GIG Cymru

Sefydlwyd Cyngghair Iechyd a Lles Cydffederasiwn GIG Cymru yn 2015. Mae'n cynnwys dros 80 o sefydliadau iechyd a gofal o'r GIG, llywodraeth leol, gofal iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau cleifion a'r proffesiynau. Nod y Gyngghair Iechyd a Llesiant Cydffederasiwn GIG Cymru yn llais annibynnol cydweithredol, sy'n gallu nodi a cheisio mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar yr agenda iechyd, gofal cymdeithasol, llesiant ac integreiddio, a'i heffaith ar bobl ledled Cymru.

Dysgwch ragor am Nod Cyngghair Iechyd a Lles: www.nhsconfed.org/HAWA